LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES
Gwirfoddoli
Volunteering

HAF 2026| RHIYFYN 23

# LLAIS GWIRFODDOLWYR



## Diweddariadau

Mae wedi bod yn haf poeth a chynhyrchiol i gymuned y gwirfoddolwyr yma yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. O ffans yn chwythu'n y swyddfa'n a theithiau heulog i weithgareddau difyr a phrosiectau cyffrous, mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn llawn digwyddiadau cofiadwy.

Ym mis Mehefin, fe wnaethom ddathlu Wythnos Gwirfoddoli gyda Sgwrs a Thaith Arddangosfa dan arweiniad Wil Troughton, cyn Guradur Ffotograffiaeth y Llyfrgell sydd wedi ymddeol yn ddiweddar. Ym mis Gorffennaf agorwyd arddangosfa newydd Mary Lloyd Jones, gyda'n Gwirfoddolwyr Oriel yn gwisgo eu crysau-t MLJ yn falch ac yn rhannu eu gwybodaeth ag ymwelwyr.

Ym mis Awst daeth cyffro'r Eisteddfod Genedlaethol, ynghyd â thaith arbennig i Lanerchaeron i'r gwirfoddolwyr, gan gloi haf prysur a gwerth chweil.

## Yn cynnwys:

Yn y rhifyn hwn o Lais y Gwirfoddolwyr, mae Rhys yn rhannu ei daith fel gwirfoddolwr, gan fyfyrio ar yr amrywiaeth o brosiectau y mae wedi cyfrannu atynt dros y blynyddoedd a'r effaith gadarnhaol y mae bod yn rhan o gymuned gwirfoddolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'i chael arno.

Cafodd Rhys hefyd gyfle i gyfweld â Julian, un o Swyddogion Cadwraeth y Llyfrgell. Yn y sgwrs ddifyr hon, mae Julian yn cynnig cipolwg ar ei rôl, gwaith y Tîm Cadwraeth, a rhai o'r eitemau a'r casgliadau unigryw sydd dan eu gofal. I ddarllen mwy, ewch i dudalennau 6 a 7.

# Newyddion:



I ddathlu Wythnos y Gwirfoddolwyr 2026, rhoddodd Wil Troughton sgwrs i'r gwirfoddolwyr ac arwain taith o amgylch yr arddangosfa **Lens y Curadur: Gyrfa o Gasglu.**

- Mae'r prosiect mewn partneriaeth gyda'r Archifau Cenedlaethol (TNA) am Ddeddf y Tlodion bellach ar waith yn llawn. Hoffem ddiolch i'r holl wirfoddolwyr a gymerodd ran yn y gweithdy prosiect, yn ogystal â'r rhai sy'n parhau i gyfrannu at y gwaith fel rhan o'u gwirfoddoli parhaus.


- Bioblitz LLGC! Ymunodd gwirfoddolwyr a staff i gofnodi a nodi amrywiaeth o rywogaethau planhigion ar dir y Llyfrgell. Mae'r fenter hon, mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Cymru, yn anelu at gasglu data ac ystadegau a fydd yn helpu i wella ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth leol.





- Mae'r gwirfoddolwr Colin Laker wedi ysgrifennu dau flog diddorol iawn ar gyfer Archifau Cymru am ei ddarganfyddiadau wrth wirfoddoli ar brosiect Deiseb Heddwch Menywod Cymru. Wrth drawsgrifio'r ddeiseb, sylwodd Colin ar gyfres o gyfeiriadau anarferol yn ardal Trelái, Caerdydd, a arweiniodd at ddarganfod cipolwg hynod ar deuluoedd yn symud i dai cyngor newydd eu hadeiladu wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf ym 1923.

  Datgelodd ei ymchwil fod y ddeiseb yn cofnodi cyfnod unigryw yn natblygiad yr ardal ac ym mywydau ei thrigolion cynharaf. Ers hynny, mae Colin wedi parhau i ymchwilio, gan roi llwyfan i'r unigolion a lofnododd y ddeiseb ac a oedd yn byw yn y cyfeiriadau dirgel hyn, gan ddatgelu rhagor o straeon cudd o'i mewn.



| NAME. | ADDRESS. |
| --- | --- |
| Edith Thompson | 30 R 12 Rd Ely |
| Emily [illegible] | 53 A 12 Rd Ely |
| Daisy M Thomas | 29 12 Rd Ely |
| Maud Wilson | 44 12 Road Ely |
| J Smith | C 58 12 Rd Ely |
| W Bannister | 1R 12 Road Ely |
| F M Leach | 58A 12 Road Ely. |
| M. Wilson. | 29R. 12 Road. Ely. |
| M Blackmore | 44R. 12 Road. Ely |
| G. Sinkovic | 43L 12 Road Ely |
| M Hawkins | 9R 9 Road Ely |

Cyfres o gyfeiriadau anarferol, Ely, Caerdydd.
**Tudalen Deiseb 29/153, 1923.**

I ddysgu mwy am ymchwil Colin, darllenwch y blogiau **Cyfrinachau Deiseb Heddwch Menywod Cymru** a **Mwy o gyfrinachau Deiseb Heddwch Menywod Cymru** ar wefan Archifau Cymru.

**https://archifau.cymru/newyddion/**




- Mae Gwirfoddolwyr yr Oriel yn falch o wisgo'r crysau-t Mary Lloyd Jones newydd (ar gael yn y siop) yn ystod eu sesiynau goruchwylio.
  Dyma Mary Parry, un o'r gwirfoddolwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant gyda'r tîm curaduron am yr arddangosfa. Mae ein gwirfoddolwyr ymroddedig wrth law i helpu ymwelwyr i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r gweithiau celf sydd i'w gweld yn Oriel Gregynog.




- Teithiodd gwirfoddolwr Owen Watkin i Eisteddfod Genedlaethol eleni i roi sgwrs ar brosiect yr Orsedd mewn sesiwn a gadeiriwyd gan Mari Grug, Llywydd yr Eisteddfod. Mae'r prosiect, a ddatblygwyd drwy gynllun gwirfoddoli Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi creu cronfa ddata o unigolion sydd wedi'u hanrhydeddu gan Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol.
  Yn ystod y sesiwn, rhannodd Owen hanes y prosiect a thynnodd sylw at gyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr wrth wneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch i deuluoedd ac ymchwilwyr.




**https://gorsedd.llyfrgell.cymru/en/about/**

# Taith i Lanerchaeron, gan Jessica Anderson

Ym mis Awst eleni, aeth grŵp o 18 o wirfoddolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar daith i Lanerchaeron, eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ger Aberaeron. Ar ôl cael lifft yn y bws mini gan Eilir, cawsom brofiad o 'deithio yn ôl mewn amser' o amgylch yr ystâd. Yn ystod y daith, daeth nifer o gyn-drigolion yr ystâd yn fyw unwaith eto drwy berfformiadau actorion gwirfoddol mewn gwisgoedd trawiadol, a chawsom glywed eu straeon. Roedd hyn yn ffordd wych o ddeall hanes y lle ac o roi wynebau a phersonoliaethau i'r enwau sydd ynghlwm â hanes yr adeilad.

Ar ôl cinio, aethom ati i grwydro tu mewn i'r plas. Clywsom am rai o syniadau'r pensaer, John Nash (yr oeddem wedi ei gyfarfod yn gynharach yn ystod y daith gyntaf), fel defnyddio ffenestri a drysau ffug i greu cymesuredd, a'r defnydd o siapiau hirgrwn yn y boudoir. Roedd yn ddiddorol sylweddoli faint o feddwl oedd wedi mynd i mewn i bob manylyn o'r tŷ, gan gynnwys pethau na fyddwn fel arfer yn sylwi arnynt. Roedd digon o hwyl i'w gael hefyd, gan fod llygod wedi'u gwau wedi'u cuddio ym mhob ystafell. Er mai ychwanegiad modern oeddent, roedd yn bleser eu chwilio a'u canfod. Cefais gyfle hefyd i roi cynnig ar y piano, a darganfod bod alaw Y Wombles yn llawer anoddach i'w chwarae nag yr oeddwn wedi tybio!

Yn olaf, roedd digon o amser ar ôl i grwydro'r rhannau o'r tiroedd nad oeddem wedi'u gweld yn gynharach. Erbyn hynny roedd yr haul wedi dod allan yn iawn, ac roedd y llyn y tu ôl i'r ardd gaeedig yn edrych yn wych yn y golau. Gwyliais yr hwyaid gwyllt a'r ieir dŵr yn plymio o dan wyneb y dŵr, cyn edmygu'r moch a'r merlod yn crwydro'n dawel o gwmpas y stablau. Roedd gweld Bae Ceredigion yn pefrio yn haul y prynhawn ar y ffordd yn ôl i Aberystwyth yn ffordd berffaith o orffen diwrnod cofiadwy.



# Digwyddiadau

## Llesiant yn yr Oriel | Dydd Mercher 23 Medi, 10:00yb - 12:10yp

Rydym yn falch iawn o groesawu Alex Holloway i'r Llyfrgell i arwain cyfres newydd o sesiynau llesiant misol am ddim i wirfoddolwyr. Gan gyfuno elfennau o **tai chi, barddoniaeth a symud ysgafn**, mae'r sesiynau ymwybodol hyn wedi'u cynllunio i helpu cyfranogwyr i ymlacio, myfyrio ac ailgysylltu â'u lles mewn amgylchedd cefnogol.
Wedi'u cynnal yn **Oriel Gregynog**, mae pob sesiwn yn cynnig cyfle heddychlon i oedi, ymlacio ac ymgysylltu â'r arddangosfa mewn ffordd newydd ac ystyrlon. P'un a ydych yn dymuno lleihau straen, meithrin ymwybyddiaeth ofalgar neu fwynhau eiliad o dawelwch, mae croeso cynnes i bob gwirfoddolwr gymryd rhan.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiadau hyn, cysylltwch â’r tîm gwirfoddoli **gwirfoddoli@llyfrgell.cymru** neu galwch heibio’r swyddfa am sgwrs.

# Ystadegau Cyfredol

**Oriau gwirfoddolwyr y chwarter hwn:**

Mehefin: 807 oriau, Gorffennaf: 798 oriau, Awst: 731 oriau

**Cyfanswm y gwirfoddolwyr:**
Mae 91 o wirfoddolwyr wedi cofrestru ar ein rhestr!

**Prosiectau a thasgau ar y gweill:**
Dros y tri mis diwethaf mae 25 o dasgau a phrosiectau wedi bod ar y gweill. Ac mae staff y Llyfrgell yn parhau i chwilio am gyfleoedd hyd yn oed mwy cyffrous.

# Hoffem estyn croeso cynnes i'n gwirfoddolwyr newydd!




SOPHIE



EIRA




MEGAN



JOSH



MAYOWA



ELIZA



NIA



EZRA



HANNAH



WYN



# STORI RHYS

Dechreuais wirfoddoli yn y Llyfrgell Gen yn 2017, yn ystod cyfnod eithaf anodd yn fy mywyd. Y gobaith oedd y byddai gwaith gwirfoddol yn cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd meddwl, ac ar ôl cael croeso cynnes, cefais y dasg o gatalogio casgliadau o ffotograffau rheilffyrdd ac amserlenni gwaith a oedd newydd gael eu rhoi i'r Llyfrgell. Roedd hyn yn apelio'n fawr ataf fel rhywun sydd â diddordeb brwd mewn rheilffyrdd, ac oherwydd i mi fwynhau'r gwaith, parheais i wirfoddoli ar amrywiaeth eang o brosiectau. Ymhlith y rhain roedd trawsgrifio Deiseb Heddwch Menywod Cymru a chofnodi deunyddiau archifol yr artist Paul Peter Piech.

Credaf y gallaf siarad ar ran llawer o'r gwirfoddolwyr pan ddywedaf nad yw'r gwaith hwn mor syml ag y gall ymddangos. Mae hynny'n arbennig o wir wrth weithio gyda ffynonellau cynradd fel cyfrifon personol a dyddiaduron, lle gall yr ystyr a'r manylion fod yn anodd iawn eu dehongli. Yn aml, mae angen plicio'r haenau'n ôl, ceisio darllen llawysgrifen aneglur, chwilio am gliwiau mewn rhannau eraill o'r ddogfen, neu edrych ar ffynonellau allanol a all helpu i ddatrys pos anodd.

Ar hyn o bryd, rwy'n trawsgrifio dyddiaduron gwaith y ffotograffydd lleol Arvid Parry Jones, sydd bellach wedi ymddeol. Mae pob un wedi'i ysgrifennu â llaw ac yn llawn talfyriadau a ffurfiau byr o eiriau. Gall ceisio dehongli enw, gair neu gyfeiriad aneglur fy arwain ar drywydd ymchwil annisgwyl. Weithiau byddaf yn cysylltu â busnes i geisio darganfod pwy oedd yn defnyddio adeilad flynyddoedd yn ôl, neu'n cymharu disgrifiadau llawysgrif â hen fapiau archifol a delweddau lloeren. Mae'r gwaith yn gymysgedd o ddatrys pos a gwaith ditectif. Er y gall fod yn rhwystredig ar adegau, mae'r teimlad o lwyddo pan fydd popeth yn dod at ei gilydd yn anodd ei ddisgrifio.

Mae'r ymdeimlad o gyfrannu rhywbeth gwerthfawr a gwneud gwahaniaeth yn rhan fawr o'r hyn sy'n fy nghadw i'n dod yn ôl wythnos ar ôl wythnos. Y rhan arall, wrth gwrs, yw'r bobl. Dros bron i ddegawd o wirfoddoli yn LLGC, rwyf wedi cael y cyfle i gydweithio ag amrywiaeth eang o bobl, ac mae rhai ohonynt bellach yn ffrindiau agos. Mae'r gymuned wirfoddolwyr yn hynod amrywiol, ac rwyf wedi cael y fraint o weithio ochr yn ochr â phobl o bob cefndir, gyda chysylltiadau sy'n ymestyn o Illinois i Rwsia, a llawer man arall.

Y bobl bwysicaf oll, fodd bynnag, yw'r staff, sef asgwrn cefn y gymuned wirfoddolwyr. Mae Thea a Cledan bob amser yn barod i wrando ac yn awyddus i helpu, tra bod Eilir fel wncwl, sy'n dod ag egni, hiwmor a chefnogaeth ddi-ben-draw i'r tîm. Mae'n drueni na allwn bellach droi at Gwyneth, "modryb" yr adran sydd bellach wedi ymddeol, i'w gadw mewn trefn o bryd i'w gilydd!

Wrth edrych yn ôl ar bron i ddeng mlynedd o wirfoddoli, gallaf ddweud yn onest mai gwirfoddoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru oedd un o'r penderfyniadau gorau i mi wneud.

# CWRDD AG AELOD O STAFF!



Yn ddiweddar, cefais y pleser o siarad â Julian Evans, cyn wirfoddolwr sydd wedi bod yn gweithio'n llawn amser yn Llyfrgell ers deuddeng mlynedd. Mae wedi bod yn gweithio yn yr adran Gadwraeth am yr wyth mlynedd ddiwethaf fel Swyddog Cadwraeth. Ei rôl yw diogelu, atgyweirio a chadw'r casgliadau amhrisiadwy, ac yn aml fregus, sy'n rhan o gasgliadau'r Llyfrgell, gan gynnwys llyfrau, mapiau, memrwn, seliau, papurau, dogfennau a deunyddiau eraill. O'r holl eitemau hyn, llyfrau yw hoff wrthrychau Julian i weithio arnynt, oherwydd eu cymhlethdod, yr heriau sy'n gysylltiedig â gwahanol fathau o rwymiadau, a'r amrywiaeth o dechnegau a ddefnyddiwyd wrth eu cynhyrchu. Cafodd ein cyfweliad dileu ei gynnal yn yr Ystafell Gwarantin, man nad oeddwn erioed yn gwybod ei fod yn bodoli yn y Llyfrgell. Roeddem yn sgwrsio ar draws mainc waith, ac uwch ei phen roedd awyrydd hir ei wddf yn hongian, yn debyg iawn i'r "scream extractor" yn *Monsters Inc*. Mae posteri ar y waliau yn enwi pryfed a gwahanol fathau o lwydni sy'n gallu byw mewn hen lawysgrifau, y mae'n rhaid i'r tîm cadwraeth sgrinio casgliadau sy'n dod i mwen i'y Llyfrgell amdanynt.

Yn ogystal â pharatoi ychwanegiadau newydd i archifau'r Llyfrgell, mae Julian yn aml yn cael ei alw i atgyweirio llyfrau sydd wedi'u difrodi. Yn ddiweddar, er enghraifft, bu'n gweithio ar dri llyfr yr oedd eu cloriau cefn wedi'u rhwygo i ffwrdd mewn damwain gyda throli. Os bydd rhan o dudalen wedi'i rhwygo, mae'n hanfodol llenwi'r bwlch er mwyn atal y difrod rhag gwaethygu. Wrth i Julian esbonio'r broses, fe'm hatgoffwyd o impiad croen. Caiff dalennau cryf ond hynod denau o bapur meinwe eu bondio i flaen a chefn y dudalen sydd wedi'i difrodi. Mae'r papur mor gain fel mai dim ond wrth ei archwilio'n fanwl iawn y gellir gweld lle mae ymylon y darn atgyweirio yn gorgyffwrdd â'r ddogfen wreiddiol. Mae gwaith Julian yn amlwg yn gofyn am ddealltwriaeth fanwl o sut mae llyfrau hynafol yn cael eu hadeiladu. Fel rhan o'i hyfforddiant, treuliodd wyth wythnos yn dysgu celf rhwymo llyfrau yn ymarferol, gan ennill achrediad drwy Gymdeithas yr Archifau a Chofnodion. I ddangos hyn, daeth â phump o lyfrau a rwymwyd ganddo ei hun i'n cyfarfod. Roedd pob un yn defnyddio technegau gwahanol, ond dim ond yn ôl eu cloriau y gellid eu hasesu, gan fod y tudalennau y tu mewn yn hollol wag!

Roedd yr enghraifft symlaf wedi'i gwneud heb ddefnyddio unrhyw lud o gwbl, gyda'r bloc testun, y cefn a'r cloriau yn cael eu dal ynghyd yn gyfan gwbl gan gordiau a chlymau mecanyddol.

Roedd ei weithiau eraill yn dod yn raddol fwy cymhleth ac addurnedig, yn amrywio o lyfrau arddull llyfrgell a atgyfnerthwyd i wrthsefyll defnydd cyson a thriniaeth galed, i gyfrolau trawiadol gyda chloriau lledr wedi'u haddurno'n fanwl a chelfydd. Mae'r profiad ymarferol hwn yn helpu Julian i lywio ei waith cadwraeth ac atgyweirio, ond mae hefyd yn dangos sut y datblygodd llyfrau dros y canrifoedd, o weithiau unigol wedi'u crefftio â llaw i rediadau printio torfol. Mae'n cynnig cipolwg gwerthfawr ar y gwaith a gyflawnir gan Julian a'r Tîm Cadwraeth i ddiogelu casgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan sicrhau dyfodol diogel nid yn unig i'r gwrthrychau eu hunain, ond hefyd i'r ymchwilwyr a'r darllenwyr a fydd yn eu defnyddio yn y blynyddoedd i ddod.


# FFARWEL

Hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi ein gadael y tymor hwn. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth a'ch cyfraniad gwerthfawr, ac yn ffarwelio'n chwerwfelys â Maia, Mike, Joseph, Sophie a Lydia. Mae'r grŵp arbennig hwn o wirfoddolwyr bellach yn cychwyn ar bennod newydd yn eu bywydau, gan ddilyn amrywiaeth o lwybrau cyffrous. Boed hynny'n archwilio cyfleoedd gyrfa newydd, yn cwblhau traethodau ymchwil ôl-raddedig, neu'n dychwelyd i'w cymunedau lleol, o Suffolk i Buffalo, Efrog Newydd, dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddynt.


Hoffem roi sylw arbennig i Mike, sydd wedi cyrraedd carreg filltir wirioneddol ryfeddol drwy gyfrannu tua 1,200 awr o wirfoddoli dros gyfnod o dair blynedd. Mae Mike bellach wedi symud ymlaen i swydd newydd yn Abaty Ystrad Fflur, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddo am ei ymroddiad, ei frwdfrydedd a'i gyfraniad amhrisiadwy i'r Llyfrgell.



**MAIA**



**MIKE**



**JOSEPH**



**SOPHIE**



**LYDIA**

Yn awyddus i ymuno â'n cymuned wirfoddoli? Cysylltwch â ni:

Ebost: gwirfoddoli@llyfrgell.cymru
Ffôn: (01970) 632424